# ADRODDIAD EFFAITH BLYNYDDOL
## 2024/25



YMDDIRIEDOLAETH
ARFORDIR PENFRO



**Abereiddi**
**Clawr blaen: Dwyrain Freshwater**

# Adroddiad Effaith Blynyddol 2024/25

## Gair neu ddau gan ein Cadeirydd

Mae Llwybr godidog yr Arfordir yn un o'r rhyfeddodau hynny, ac i bawb sy'n gysylltiedig ag Ymddiriedolaeth Elusennol Arfordir Penfro, braint a phleser yw helpu i sicrhau dyfodol y Llwybr.

Mae gan Sir Benfro gymaint i'w gynnig i'r trigolion ac i'r ymwelwyr fel ei gilydd, ac mae'r ymddiriedolaeth yn ymdrechu i sicrhau bod rhyfeddodau'r sir yn dal yno i gyfareddu pobl heddiw ac yn y blynyddoedd i ddod.

Helpwch ni yn ein gwaith drwy gofrestru ar gyfer ein cylchlythyr a chefnogi ein prosiectau diddorol a niferus.

**Elsa Davies**

Cofrestrwch ar gyfer ein cylchlythyr
https://ymddiriedolaetharfordirpenfro.cymru/dechrau-sgwrs-gyda-ni/

YMDDIRIEDOLAETH
**ARFORDIR PENFRO**



Dinas Island



Carreg Esgob

# Neges gan y Tîm


Mae eleni wedi profi gymaint y gellir ei gyflawni pan fydd pobl ymroddedig yn dod ynghyd ac yn rhannu'r un nod. Ar draws pob prosiect, mae ein timau wedi gweithio'n ddiflino, yn adfer llwybrau, yn cynorthwyo cymunedau, yn ysbrydoli pobl ifanc, yn gwella cynefinoedd, ac yn creu ffyrdd mwy cynhwysol i bawb gael profiad o'r Parc Cenedlaethol.

Mae eu hangerdd, eu creadigrwydd a'u hymrwymiad yn ganolog i bopeth a wnawn, ac rydym yn hynod falch o'r effaith y maent yn parhau i'w gael.

Rydym yr un mor ddiolchgar i'n harianwyr, partneriaid, rhoddwyr a chefnogwyr sy'n gwneud y gwaith hwn yn bosibl. Mae eich ymddiriedaeth ynom, eich haelioni, a'ch cred ym mhwysigrwydd gwarchod Arfordir Penfro yn galluogi ein timau i droi syniadau yn gamau gweithredu, a heriau yn newid ystyrlon.

Wrth i ni edrych i'r dyfodol, rydym yn ymestyn croeso cynnes i gefnogwyr newydd yn gynnes i ymuno â ni ac rydym bob amser yn agored i syniadau ffres a chreadigol fydd yn ein helpu i ofalu am y lle rhyfeddol hwn.

Diolch i chi am sefyll gyda ni. Gyda'n gilydd, rydym yn gwarchod y Parc Cenedlaethol rhyfeddol hwn ar gyfer heddiw, yfory a'r dyfodol.



**Ein gweledigaeth** yw cynnal a gwella nodweddion unigryw a nodedig Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, gofalu am ei iechyd a'i les a diogelu ei rinweddau eithriadol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

**Ein cenhadaeth** yw gweithio gyda phartneriaid i warchod, gwella a dathlu'r dirwedd, bywyd gwyllt a diwylliant unigryw Arfordir Penfro a'r cyffiniau, gan ddefnyddio ein hadnoddau er budd y bobl sy'n byw ac yn gweithio yn y Parc Cenedlaethol a'r ardal o gwmpas, yn ogystal â'r rhai sy'n dod i ymweld â'r Parc Cenedlaethol.

**Ein tasg** yw cynhyrchu cymaint â phosibl o adnoddau i ategu gweithgareddau ein partneriaid heb eu dyblygu. Er mwyn llwyddo i wireddu'r canlyniadau gorau, byddwn yn ymgysylltu ag amrywiaeth o sefydliadau ac unigolion yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol, gan annog eu cefnogaeth a gweithio gyda hwy mewn modd pwrpasol a threfnus. Byddwn yn gweithio i gyfleu natur a gwerth unigryw'r Parc yn effeithiol; y modd y gellir ei warchod a'i wella; a pha adnoddau sydd eu hangen i ategu ei asedau.




# DIOGELU'R PARC CENEDLAETHOL, AR GYFER HEDDIW, YFORY A'R DYFODOL

Ceibwr


# Incwm a Gwariant

## Cyfanswm incwm 24/25
**£206,346**



- £116,685 Ymddiriedolaethau a Sefydliadau
- £20,000 Corfforaethol
- £896 Digwyddiadau
- £31,661 Rhoddion
- £37,107 Craidd arall

## Cyfanswm y gwariant
**£164,589**



- £121,967 Prosiectau a gefnogwyd
- £718 Amrywiol
- £41,562 Gweinyddiaeth
- £342 Ffioedd ariannol a thrafodion

# Ein Prosiectau....

## Enw'r Prosiect: **Llwybrau i Gydnerthedd**

### Crynodeb o'r Prosiect

Mae Llwybrau yn brosiect gwirfoddoli â chymorth sydd â'r nod o gynyddu nifer yr unigolion sy'n cymryd rhan mewn gwirfoddoli o blith grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol a chymunedau difreintiedig ar draws y Parc Cenedlaethol. Mae'r prosiect yn helpu pobl i oresgyn rhwystrau i gymryd rhan drwy gynnig cyfleoedd dan arweiniad a chymorth i fagu hyder, datblygu sgiliau, ac annog cyfranogi yn yr hirdymor mewn gweithgareddau cadwraeth a threftadaeth.



### Canlyniadau ac Effaith y Prosiect Hyd yn Hyn

Mae Llwybrau yn parhau i roi cymorth i wirfoddolwyr presennol, gan eu galluogi i ddefnyddio a datblygu ymhellach y sgiliau ymarferol y maent wedi'u dysgu dros amser.

Mae'r prosiect wedi croesawu a chynorthwyo gwirfoddolwyr newydd, gan eu helpu i ddechrau ar eu taith o wirfoddoli drwy gyfarwyddyd wedi'i deilwra a phwyntiau mynediad hygyrch.

Mae gwirfoddolwyr wedi cyfrannu at ystod eang o weithgareddau cadwraeth a threftadaeth ar draws y Parc Cenedlaethol, gan gydweithio â chymunedau lleol, grwpiau a sefydliadau partner.

Drwy waith y prosiect, mae Llwybrau wedi cynyddu cynhwysiant ac amrywiaeth o fewn y gymuned o wirfoddolwyr drwy ennyn diddordeb pobl o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol ac o gefndiroedd difreintiedig, gan wneud gwirfoddoli yn fwy hygyrch a chynrychioliadol.

## Enw'r Prosiect: **Sir Benfro Hygyrch**

### Crynodeb o'r Prosiect

Mae Sir Benfro Hygyrch yn cwmpasu prosiectau sy'n gwella mynediad i'r Parc Cenedlaethol i bobl o bob gallu. Mae hyn yn cynnwys mentrau megis y Prosiect Cadeirau Olwyn y Traeth  a chymorth seilwaith i wneud llwybrau, safleoedd a phrofiadau allweddol yn fwy croesawgar a bod modd eu dednyddio. Hefyd mae'r prosiect yn cefnogi rhaglenni awyr agored sy'n canolbwyntio ar gynhwysiant megis y rhaglenni Agored i Bawb ac Ewch Allan i'r Awyr Agored.

### Canlyniadau ac Effaith y Prosiect Hyd yn Hyn

Mae'r prosiect wedi galluogi mwy o bobl i gael profiad o fod yn yr awyr agored, gan gynnwys y rhai sydd â phroblemau symudedd. Mae gwelliannau yn y seilwaith mynediad a'r ymdrechion i gynnwys cymunedau wedi cyfrannu at fwy o bobl yn cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n seiliedig ar natur, ac wedi cryfhau ymgysylltu cymunedol â'r Parc Cenedlaethol.





# Enw'r Prosiect: **Gwella Cynefinoedd Adar a Gwenyn**

## Crynodeb o'r Prosiect

Mae'r prosiect cadwraeth hwn yn mynd i'r afael â'r dirywiad mewn cynefinoedd drwy gefnogi gwaith sy'n rheoli tir ar gyfer rhywogaethau blaenoriaeth ac yn gwella bioamrywiaeth ar draws y Parc Cenedlaethol. Mae'r gwaith yn cynnwys rheoli coetiroedd, creu dolydd, plannu gwrychoedd, a gwneud gwelliannau i gynefinoedd sy'n gyfeillgar i rywogaethau i gryfhau poblogaethau bywyd gwyllt a chydnerthedd ecolegol.

## Canlyniadau ac Effaith y Prosiect Hyd yn Hyn

Mae'r ymdrechion cadwraeth parhaus o dan y fenter Adar a Gwenyn wedi helpu i ddiogelu'r rhywogaethau sydd dan fygythiad (megis y Cardwenynen Feinlais ac adar ffermdir sy'n dirywio mewn nifer), wedi gwella cynefinoedd llawn blodau, ac wedi cynorthwyo'r gwaith o greu cysylltiadau rhwng tirweddau sy'n hybu bioamrywiaeth. Mae'r gwaith hwn yn chwarae rhan allweddol o wrthdroi'r dirywiad a sicrhau rhwydweithiau o gynefinoedd cydnerth.

# Enw'r Prosiect: **Ewch i'r Awyr Agored**

## Crynodeb o'r Prosiect

Crynodeb o'r Prosiect Mae Ewch i'r Awyr Agored yn cynorthwyo pobl o bob gallu i gael mynediad i Arfordir Penfro  a'i fwynhau. Drwy ddarparu offer symudedd arbenigol a gweithgareddau dan arweiniad, mae'r prosiect yn dileu rhwystrau i allu cyfrannu mewn gweithgareddau awyr agored, gan helpu unigolion, grwpiau a chymunedau i gysylltu â natur, datblygu sgiliau, a mwynhau cyfleoedd hamdden a dysgu.

## Canlyniadau ac Effaith y Prosiect Hyd yn Hyn

Mae'r fenter wedi cynyddu mynediad i'r ardaloedd arfordirol a naturiol i'r bobl sydd â symudedd cyfyngedig, gan alluogi cannoedd o gyfranogwyr i archwilio'r lleoedd awyr agored yn annibynnol. Mae'r prosiect wedi cryfhau partneriaethau â grwpiau cymunedol a sefydliadau lleol, gan hyrwyddo cyfleoedd awyr agored cynhwysol ledled yr ardal.

Drwy gyfrannu, mae unigolion wedi magu hyder, gwella eu llesiant, ac adeiladu cysylltiadau cymdeithasol, gan wneud Arfordir Penfro yn fwy hygyrch ac yn fwy croesawgar i bawb.

# Enw'r Prosiect: **Ysgolion Awyr Agored**

## Crynodeb o'r Prosiect

Yn ganolog i waith Ymddiriedolaeth Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, rydym yn parhau i gefnogi’r rhwydwaith o Ysgolion Awyr Agored Sir Benfro, gan gynorthwyo mwy o blant yn Sir Benfro i elwa o gyfleoedd dysgu yn yr awyr agored.

## Canlyniadau ac Effaith y Prosiect Hyd yn Hyn

- Roedd y prosiect wedi cynnal 6 cwrs hyfforddi athrawon i 160 o athrawon, gan gwmpasu pynciau megis 'gweithgaredd corfforol yn yr awyr agored' ac mewn coetiroedd. Hefyd cynhaliwyd hyfforddiant i 14 o brifathrawon, lle amlygwyd gwerth bod yn yr awyr agored i'w dysgwyr.
- Cynorthwywyd 18 o ysgolion i ddatblygu tiroedd eu hysgol fel adnodd dysgu.
- Ymwelwyd â 15 o ysgolion eraill, a rhoddwyd cyfoeth o adnoddau iddynt i gefnogi eu dysgu yn yr awyr agored.
- Mae'r prosiect wedi gweithio'n uniongyrchol gyda 500 a mwy o ddisgyblion yn ystod y flwyddyn ddiwethaf er bod llawer mwy wedi elwa o'r prosiect yn dilyn yr hyfforddiant athrawon. Mae'r gwaith a wnaed drwy'r prosiect hwn yn awgrymu bod y rhan fwyaf o’r ysgolion cynradd lleol wedi elwa o'r prosiect, gan helpu i wella mynediad i fannau awyr agored a darparu adnoddau dysgu o ansawdd uchel o bob rhan o'n partneriaeth.





# Enw'r Prosiect: **Cydnerthedd Newid Hinsawdd**

## Crynodeb o'r Prosiect

Mae'r prosiect hwn yn cefnogi’r gwaith o gynnal a chadw a gwaith adfer Llwybr Cenedlaethol Arfordir Penfro, gan fynd i'r afael ag erydiad arfordirol sy'n effeithio ar gynefinoedd, cymunedau ac ar ymwelwyr. Mae'r prosiect yn ariannu mentrau sy'n lliniaru effaith y newid hinsawdd ac yn cefnogi rhaglenni meis Awyr Dywyll, Pwyth mewn Pryd, a'r Llwybr Cenedlaethol, gan gyfrannu at gadwraeth, lles a mwynhad cynaliadwy o'r Parc.

## Canlyniadau ac Effaith y Prosiect Hyd yn Hyn

Mae'r prosiect wedi gwella profiad ymwelwyr ac ymgysylltu cymunedol, gan helpu i ddiogelu cynefinoedd hanfodol, cefnogi cymunedau lleol, a sicrhau bod y Llwybr yn yn parhau i fod yn ddiogel ac yn bleserus. Mae’r prosiect wedi ennyn ymwybyddiaeth o’r amgylchedd, ac wedi hyrwyddo bioamrywiaeth, gan feithrin cysylltiad cadarnach rhwng pobl a natur.

Mae’r ymdrechion i liniaru effaith newid hinsawdd wedi’u cefnogi, gan helpu i ddiogelu harddwch naturiol a chydbwysedd ecolegol y Parc ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae gwydnwch arfordirol wedi'i wella drwy waith effeithiol o gynnal a chadw ac adfer, gan gryfhau amddiffynfeydd naturiol y Parc rhag erydu.





# Enw'r Prosiect: **Camu i'r Gorffennol**

## Crynodeb o'r Prosiect

Mae'r prosiect hwn yn cefnogi mentrau treftadaeth ar draws Arfordir Penfro, gan ganolbwyntio ar adfer a chynnal safleoedd a seilwaith hanesyddol. Drwy ddeunydd esboniadol digidol, digwyddiadau a phrofiadau ymarferol, mae'r prosiect yn sicrhau bod hanes cyfoethog y Parc yn cael ei gadw ac yn hygyrch i bawb. Ymhlith y prosiectau allweddol mae cloddio archaeolegol, adfer waliau Sain Ffraid, a gwelliannau yng Nghastell Caeriw.

## Canlyniadau ac Effaith y Prosiect Hyd yn Hyn

Mae'r prosiect wedi gwarchod treftadaeth ddiwylliannol, gan ddiogelu safleoedd hanesyddol ac arteffactau ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae’r prosiect wedi gwella ymgysylltu â’r cyhoedd, gan annog mwy o bobl i archwilio a gwerthfawrogi hanes Sir Benfro.

Mae’r prosiectau treftadaeth wedi cefnogi twristiaeth a busnesau lleol, gan gyfrannu at economi'r Parc. Mae'r gwaith wedi meithrin balchder a hunaniaeth gymunedol, gan gryfhau cymunedau cydlynus ac ymrwymiad i ddiogelu treftadaeth unigryw Sir Benfro.



# Enw'r Prosiect: **Cynllun Grantiau Grym dros Natur**

## Crynodeb o'r Prosiect

Mae’r cynllun grant Grym dros Natur yn cefnogi prosiectau cadwraeth a gwella byd natur dan arweiniad y gymuned ledled Sir Benfro. Rheolir y prosiect gan yr Ymddiriedolaeth, ac mae'n cynnig grantiau bach (hyd at £4,000 fel arfer) i grwpiau cymunedol, ysgolion, elusennau a chynghorau i gyflawni canlyniadau amgylcheddol cadarnhaol o fewn neu o gwmpas y Parc Cenedlaethol. Ymhlith y prosiectau nodweddiadol mae creu cynefinoedd, gwella bioamrywiaeth, mentrau gweithredu ar newid hinsawdd, a gwella neu greu mannau gwyrdd.

## Canlyniadau ac Effaith y Prosiect Hyd yn Hyn

Yn ystod 2024, roedd y cynllun wedi ariannu 14 o brosiectau lleol, gan gynnwys gerddi pryfed peillio, creu dolydd, gerddi lles, a mannau gwyrdd sy'n gyfeillgar i fywyd gwyllt. Roedd y derbynwyr grant yn amrywio o ysgolion a chynghorau tref i glybiau pêl-droed a grwpiau cymunedol, fu’n creu gerddi synhwyraidd, rhandiroedd, gwelyau pryfed peillio, dolydd, a chynefinoedd sy'n gyfeillgar i adar.

Mae'r mentrau hyn wedi gwella bioamrywiaeth leol, wedi ennyn cymunedau i ofalu am natur, ac wedi helpu pobl i gysylltu'n agosach â'u hamgylchedd naturiol.

## Enw'r Prosiect: **Gwreiddiau (Dysgu Awyr Agored a Chysylltu â Natur)**

### Crynodeb o'r Prosiect

Mae'r prosiect Gwreiddiau, a gyflwynir gan Ymddiriedolaeth Elusennol Arfordir Penfro mewn partneriaeth ag LNG South Hook, yn helpu pobl ifanc ledled Sir Benfro i gysylltu â thirweddau, bywyd gwyllt a threftadaeth y Parc Cenedlaethol.

Ers 2019, mae'r prosiect wedi tyfu i fod yn rhaglen dysgu awyr agored eang ei chwmpas sy'n cefnogi anghenion y cwricwlwm, yn lleihau rhwystrau drwy noddi tripiau ac adnoddau, ac yn dod â dysgwyr yn agosach at amgylchedd a hanes unigryw Aber afon Cleddau.

### Canlyniadau ac Effaith y Prosiect Hyd yn Hyn

Mae 5,000 a mwy o ddisgyblion wedi cymryd rhan mewn 150 a mwy o sesiynau dysgu awyr agored, sy'n golygu cyfanswm o fwy na 7,700 awr o addysg ymarferol sy'n cryfhau ymwybyddiaeth a hyder amgylcheddol. Mae'r adborth gan athrawon yn cyfeirio at well sgiliau o gyflwyno dysgu awyr agored, gyda chymorth adnoddau o ansawdd uchel a datblygu proffesiynol.

Mae'r partneriaethau â grwpiau amgylcheddol, archifau, a diwydiant lleol wedi cyfoethogi dealltwriaeth disgyblion o fioamrywiaeth, materion hinsawdd a threftadaeth gymunedol, tra bod ymchwil gwirfoddolwyr wedi ychwanegu cynnwys hanesyddol a diwylliannol gwerthfawr at y rhaglen.

Bydd platfform digidol a weithredir cyn  hir yn ymestyn yr effaith hon ymhellach fyth, gan gynnig mynediad hirdymor i ddeunyddiau dysgu Gwreiddiau ar gyfer ysgolion ledled Sir Benfro.





# Newyddion arall....

Fis Rhagfyr 2024, yn ystod yr Wythnos Rhoi Mawr, roeddem wedi cynnal ymgyrch dros wythnos o hyd i godi arian cyfatebol i gefnogi ein hymdrechion i **Achub Ein Llwybrau Arfordirol**, gan wahodd y cyhoedd i ddyblu effaith eu rhoddion i helpu i fynd i'r afael ag erydiad arfordirol a newid hinsawdd sy'n effeithio ar Lwybr Arfordir Sir Benfro, 186 milltir o hyd. Defnyddiwyd y rhoddion a godwyd i ariannu gwaith atgyweirio hanfodol, adfer pontydd, cael gwared ar falurion, ac ail-lwybro angenrheidiol i gadw'r llwybrau eiconig ar agor ac yn ddiogel i genedlaethau'r dyfodol.

Byddwn yn parhau i hyrwyddo **Mabwysiadu Gwenynen** am £30 a helpu i amddiffyn cynefinoedd gwenyn a ffynonellau bwyd ar draws Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Mae pob pecyn mabwysiadu yn cynnwys gwenynen feddal, tystysgrif, hadau blodau gwyllt, a thaflen ffeithiau am wenyn sy'n ddelfrydol i chithau neu fel anrheg.

Cynhaliwyd amrywiaeth o ddigwyddiadau, gan gynnwys ein Taith Gerdded a Sgwrs ar Ystlumod, glanhau traethau a'n **Digwyddiad Rhwydweithio Blynyddol fis Hydref**, gan ddechrau gyda thaith gerdded llawn golygfeydd yn Nhyddewi ac yna lluniaeth a rhwydweithio yn Oriel y Parc.

# Ein cynlluniau ar gyfer y flwyddyn sy'n dod....



**Bydd y rhedwraig eithafol Sanna Duthie yn rhedeg ar hyd Llwybr Arfordir yn ei gyfanrwydd, sy'n 186 milltir o hyd,** fis Ebrill 2025 mewn ymgais i gwblhau'r Llwybr mewn llai na 50 awr a chodi arian hanfodol ar gyfer Ymddiriedolaeth Elusennol Arfordir Penfro. Bydd Sanna'n cychwyn rhedeg ar Draeth Poppit ac yn anelu at guro ei record flaenorol ei hun wrth godi arian i gefnogi gwaith cynnal a chadw hanfodol ar y Llwybr, gan gynnwys atgyweirio difrod stormydd, diogelu safleoedd hanesyddol, a mynd i'r afael ag erydu arfordirol. Nod yr her yw ysbrydoli rhoddion ac amlygu pwysigrwydd diogelu'r llwybr eiconig hwn yn y Parc Cenedlaethol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, gyda chymorth yr Ymddiriedolaeth, a chyfleoedd codi arian ychwanegol ar gael drwy Her yr Arfordir Gwyllt i gerddwyr o bob cyflymder.




Byddwn **yn ailagor ein cynllun grant Grym dros Natur** yn 2025, gan gynnig hyd at £4,000 fesul prosiect i grwpiau cymunedol, elusennau, cynghorau tref a chymuned, ysgolion a busnesau ledled Sir Benfro. Bydd ymgeiswyr yn gallu ariannu mentrau sy'n gwella bioamrywiaeth, yn creu neu'n gwella mannau gwyrdd, yn mynd i'r afael â newid hinsawdd, neu'n adfer cynefinoedd o fewn neu ger Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Y rownd hon fydd ein mwyaf hyd yn hyn, gyda cheisiadau ar agor tan 8 Medi 2025 a phrosiectau i'w cwblhau erbyn 2 Mawrth 2026, ac ni fydd angen unrhyw gyllid cyfatebol.

Rydym yn **lansio Rhaglen Bartneriaeth newydd Ewch Allan i'r Awyr Agored**, a byddwn yn dathlu'r rhaglen mewn Brecwast Busnes yn Saundersfoot, gan ddod â busnesau lleol, arweinwyr cymunedol a phartneriaid ynghyd. Bydd y rhaglen hon yn creu mwy o gyfleoedd i gydweithio, yn cynnig mwy o gyfleoedd i gael mynediad i'r awyr agored yn Sir Benfro i bobl o bob gallu, ac yn arddangos sut y gall profiadau awyr agored cynhwysol fod o fudd i gymunedau, busnesau ac ymwelwyr fel ei gilydd. Bydd y digwyddiad lansio yn tynnu sylw at nodau'r rhaglen, yn rhannu straeon ysbrydoledig, ac yn rhoi cychwyn i'r fenter gyffrous newydd hon ar draws y rhanbarth.

Byddwn yn cefnogi'r **prosiect Y 1,000 Diwrnod Cyntaf**, sy'n canolbwyntio ar y 1,000 diwrnod cyntaf hollbwysig ym mywyd plentyn, a'u heffaith hirdymor ar ei ddatblygiad. Mae'r prosiect yn cyflwyno rhaglen o weithgareddau chwarae yn yr awyr agored i blant cyn-ysgol, gan helpu rhieni a gofalwyr gael mynediad at fyd natur a'r awyr agored gyda'u rhai bach.

# Diolch personol i'n Cyllidwyr 2024/25

Hoffem ddiolch i bob un o'n cefnogwyr unigol sydd wedi cyfrannu i ni dros y flwyddyn. Ni allem wneud yr hyn a wnawn, hebddoch chi.

### Cwmnïau sydd wedi ein cefnogi:

Cyngor Cymuned Scleddau

Mae Lifeforms yn rhoi'r elw o'u gwerthiant crysau-t

LNG De Hook

### Yr unigolion yr hoffem ddiolch yn arbennig iddynt:

Ein codwyr arian Dan, Max, a Scott, ac mae Dan wedi cymryd rhan yn her anhygoel Ironman Cymru!

Ein rhoddwyr a'n rhoddwyr rheolaidd, a'r rhai a fynychodd ein digwyddiadau

### Ymddiriedolaethau a Sefydliadau:

Loteri Cod Post

Dechreuadau Cryfach Tesco

Ymddiriedolaeth Elusennol Ernest Kleinwort

Her Nadolig y Rhoi Mawr

Cronfa Gymunedol Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau

Cyngor Tref Hwlffordd

Ymddiriedolaeth Elusennol Robert Clutterbuck

Sefydliad Wolfson

Grant VCI a ZEV y Gwasanaeth Ynni

Ymddiriedolaeth Awyr Agored Ramble Worldwide

Cronfa Cenedlaethau'r Dyfodol y Principality

Ymddiriedolaeth Elusennol D'Oyly Carte

Ymddiriedolaeth Oakdale

Ymddiriedolaeth Bruce Wake






Porth Maenmelyn

# Astudiaethau Achos....

## Astudiaeth Achos 1: **Cydweithio rhwng Cymunedau a Busnesau ar Gadwraeth Arfordirol**

### Trosolwg

Fis Mai 2024, roedd Ymddiriedolaeth Elusennol Arfordir Penfro wedi dod â busnesau lleol a gwirfoddolwyr ynghyd i fynd i'r afael â llygredd sbwriel yng Ngorllewin Freshwater, un o draethau mwyaf poblogaidd Sir Benfro. Nid yn unig yr oedd yr ymdrech hon o gydweithredu wedi gwella amgylchedd y traeth ond hefyd wedi cryfhau'r cysylltiadau â'r cymunedau ac amlygu'r rôl o gyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol mewn stiwardiaeth amgylcheddol.

Ymunodd 19 o wirfoddolwyr o amrywiol sefydliadau lleol â ni, gan gynnwys Porthladd Aberdaugleddau, Cyfeillion Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, Ceginau Magnet a DP Energy.

Aeth y grŵp ati i leihau sbwriel a diogelu'r bywyd morol ar hyd traeth Gorllewin Freshwater, lle'r oedd busnesau lleol a grwpiau lle'r oedd busnesau lleol a grwpiau cymunedol yn cymryd camau ymarferol i ddiogelu'r amgylchedd, a hefyd yn ennyn ymwybyddiaeth o effaith sbwriel arfordirol, ac yn annog stiwardiaeth barhaus. Casglwyd cyfanswm o 12 bag o sbwriel a'u gwaredu mewn modd cyfrifol, gan ddiogelu'r amgylchedd arfordirol ac atal difrod i fywyd gwyllt.

### Yr Effaith a'r Gwersi a Ddysgwyd

Bu'r profiad o lanhau'r traeth yn brofiad gwerth chweil i staff y busnesau lleol, ac yn chwa o awyr iach o fywyd swyddfa, yn gyfle i wneud gweithgareddau awyr agored, a chyfle i gysylltu ag eraill, atgyfnerthu cysylltiadau cymunedol a chefnogi lles yn ystod Wythnos Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl.

Roedd y cydweithio amlsector rhwng busnesau, elusennau a gwirfoddolwyr wedi ehangu'r effaith amgylcheddol, tra bod nodau clir a chymorth logistaidd gref, megis offer gan Cadwch Gymru'n Daclus, wedi sicrhau bod y digwyddiad yn rhedeg yn esmwyth ac yn llwyddiannus.

## Astudiaeth Achos 2: **Cefnogi Dysgu Awyr Agored yn Sir Benfro**

### Trosolwg

Yn 2026, roedd menter Ysgolion Awyr Agored Sir Benfro (PODS) wedi derbyn cyllid a chymorth newydd gan fusnesau lleol, cynghorau cymuned, ac ymddiriedolaethau elusennol, gan alluogi'r fenter i barhau i gynnig profiadau dysgu awyr agored o ansawdd uchel i ysgolion ledled Sir Benfro.

Roedd y cyllid, gan gynnwys £15,000 o Gronfa Gwella Sir Benfro, ynghyd â chyfraniadau gan Gyngor Tref Hwlffordd, Cyngor Cymuned Scleddau, Cyngor Tref Trefdraeth, a Chronfa Solar NextEnergy, wedi galluogi staff addysgu ac arbenigwyr dysgu awyr agored i ymgysylltu disgyblion ag amgylchedd naturiol Sir Benfro drwy weithgareddau ymarferol a rhaglenni addysgol.

Nod y profiadau hyn oedd magu hyder plant, dyfnhau eu cysylltiad â'u hamgylchedd lleol, a chefnogi lles.

### Yr Effaith a'r Gwersi a Ddysgwyd

Mae'r fenter wedi cryfhau'r bartneriaeth rhwng ysgolion, cynghorau cymuned, a sefydliadau arbenigol, gan ehangu effaith dysgu yn yr awyr agored. Roedd yr athrawon a'r disgyblion wedi elwa o gael arweiniad arbenigol a gweithgareddau strwythuredig, tra bod y cyllid ychwanegol wedi caniatáu i'r ysgolion awyr agored ehangu'r cymorth, gan gynnwys rhaglenni wedi'u targedu ar gyfer ysgolion uwchradd, megis y diwrnodau her arfordirol yn Niwgwl.

Roedd y prosiect yn amlygu pa mor bwysig yw cydweithio amlsector, cynllunio clir, ac adnoddau pwrpasol i gyflwyno profiadau dysgu ystyrlon, hyrwyddo ymgysylltu â'r byd natur, a gwella lles myfyrwyr.

# Astudiaeth Achos 3: **Codi Arian Wythnos y Rhoi Mawr at Ddiogelu Llwybr yr Arfordir**

## Trosolwg

Fis Rhagfyr 2024, roedd **Ymddiriedolaeth Elusennol Arfordir Penfro** wedi cynnal ymgyrch wedi'i thargedu i godi arian yn ystod **Wythnos y Rhoi Mawr (3–10 Rhagfyr)** i gefnogi ei hymdrechion **i Achub Ein Llwybrau Arfordirol**, gan wahodd y cyhoedd i ddyblu effaith eu rhoddion drwy gyllid cyfatebol.

Roedd yr ymgyrch wedi canolbwyntio ar godi arian i fynd i'r afael ag effeithiau **erydiad arfordirol a newid hinsawdd** ar Lwybr eiconig Arfordir Penfro, llwybr sy'n cael ei drysori yn rhyngwladol ac sy'n cael ei fwynhau gan drigolion, ymwelwyr a bywyd gwyllt fel ei gilydd

Anogwyd y cefnogwyr i gyfrannu yn ystod y cyfnod saith diwrnod hwn fel y byddai pob rhodd yn derbyn **arian cyfatebol, gan ddyblu'r cyfraniad** tuag at waith cadwraeth hanfodol. Roedd yr arian wedi'i glustnodi at **atgyweirio rhannau o'r llwybr oedd wedi'u difrodi, adfer pontydd, cael gwared ar falurion, a chreu llwybrau newydd** lle bo angen i sicrhau bod y llwybrau yn parhau yn ddiogel, yn hygyrch, ac yn wydn ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

## Yr Effaith a'r Gwersi a Ddysgwyd

Roedd yr ymgyrch Wythnos y Rhoi Mawr wedi llwyddo i ddefnyddio arian cyfatebol cenedlaethol i wneud i bob rhodd fynd ymhellach i ddiogelu Llwybr Arfordir Sir Benfro rhag pwysau cynyddol newid hinsawdd.

Roedd y fenter wedi dangos gwerth **codi arian am gyfnod penodol ac ar adeg amlwg** o ran ennyn cefnogaeth ehangach y cyhoedd, ac wedi amlygu pwysigrwydd **partneriaethau strategol**, megis gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro a'r Llwybrau Cenedlaethol i gynllunio a chyflawni gwaith cadwraeth yn effeithiol. Drwy ganolbwyntio ar angen clir ac ar frys a chynnig ehangu'r effaith drwy roi arian cyfatebol, roedd yr Ymddiriedolaeth wedi atgyfnerthu'r modd y gallai **gweithredu ar y cyd a chyllid wedi'i dargedu** ddiogelu tirweddau a llwybrau cerdded a drysorir yn yr hir-dymor.

# Astudiaeth Achos 4: **Y Prosiect Gwreiddiau – Ysbrydoli Cenedlaethau'r Dyfodol**

## Trosolwg

Mae'r prosiect Gwreiddiau, a gyflwynir gan Ymddiriedolaeth Elusennol Arfordir Penfro mewn partneriaeth ag LNG South Hook, yn ymgysylltu pobl ifanc ledled Sir Benfro mewn dysgu awyr agored ystyrlon sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm. Bellach yn ei bumed flwyddyn, mae'r prosiect wedi esblygu o addysg sy'n seiliedig ar natur a bwyd i raglen ehangach sy'n cysylltu disgyblion â thirweddau lleol, bioamrywiaeth, treftadaeth a diwydiant.

Drwy gynnal ymweliadau maes, sesiynau ysgol ac ymchwil a gefnogir gan wirfoddolwyr, mae dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth ddyfnach o Aber afon Cleddau ac amgylchedd unigryw'r Parc Cenedlaethol. Mae'r prosiect hefyd yn dileu rhwystrau ariannol ac ymarferol i ddysgu awyr agored drwy noddi teithiau, adnoddau a chymorth wedi'i deilwra i athrawon.

## Y Canlyniadau

Ers ei lansio, mae Gwreiddiau wedi bod o fudd i 5,000 a mwy o ddisgyblion ac wedi cryfhau dysgu awyr agored ar draws naw ysgol, a chyflwyno dros 150 o sesiynau addysgol a 7,700 o oriau o ddysgu ymarferol. Mae gan yr athrawon fwy o hyder wrth gyflwyno addysg sy'n seiliedig ar natur, tra bod y disgyblion wedi ennyn ymdeimlad cryfach o le ac ymwybyddiaeth well o fioamrywiaeth, materion hinsawdd a threftadaeth leol.

Mae partneriaethau'r rhaglen â sefydliadau amgylcheddol, diwydiant lleol, amgueddfeydd ac archifau wedi cyfoethogi'r cynnwys ac wedi helpu i ymwreiddio gwybodaeth gymunedol yn eu profiadau dysgu. Mae ymchwil gwirfoddol barhaus wedi ychwanegu gwerth drwy gasglu straeon, deunydd hanesyddol a darlunio bywyd gwyllt sy'n cefnogi dysgu dyfnach seiliedig ar ymholi.

## Y Camau Nesaf

O 2025 ymlaen, bydd y prosiect yn canolbwyntio ar Aber y Daugleddau, gan gynnig cyfleoedd newydd i ddysgu drwy brofiad o'r cynefinoedd, y dreftadaeth a'r diwydiannau.

Bydd platfform dysgu digidol newydd yn cael ei ddatblygu i gynnal adnoddau addysgu, deunydd ymholi ac ymchwil gwirfoddolwyr, gan ymestyn mynediad i gynifer â 17,000 o ddysgwyr ledled Sir Benfro a thu hwnt. Bydd hyn yn sicrhau parhad hirdymor y prosiect, gan alluogi ysgolion i barhau i archwilio straeon yr aber a'i arwyddocâd amgylcheddol ymhell ar ôl i'r ddarpariaeth uniongyrchol ddod i ben.

# GYDA'N GILYDD RYDYM YN GWNEUD GWAHANIAETH



**Cofrestrwch ar gyfer ein cylchlythyr** https://ymddiriedolaetharfordirpenfro.cymru/dechrau-sgwrs-gyda-ni/

**Dilynwch ni ar y cyfryngau cymdeithasol:**

pembrokeshirecoasttrust @pembrokeshirecoasttrust Pembrokeshire Coast National Park Trust

**Broad Haven South**

## YMDDIRIEDOLAETH ARFORDIR PENFRO

## PEMBROKESHIRE COAST CHARITABLE TRUST

**CYSYLLTWCH Â NI**
support@pembrokeshirecoast.wales
www.ymddiriedolaetharfordirpenfro.cymru
01646 624808
Parc Llanion, Doc Penfro, Sir Benfro SA72 6DY

Registered with FUNDRAISING REGULATOR

Ymddiriedolaeth Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro.
Rhif Elusen Gofrestredig 1179281